

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr, Practis
Deintyddol Chapel
Cottages**

7 Hydref 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	11
5.	Y Camau Nesaf.....	13
6.	Methodoleg	14
	Atodiad A.....	16

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Chapel Cottages yn 5 Chapel Cottages, High Street, Gresffordd, Wrecsam ar 7 Hydref 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Chapel Cottages yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd o arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydyn ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Chapel Cottages yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Ngresffordd a'r ardaloedd o amgylch yn Wrecsam. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol Chapel Cottages yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn bennaf a rhai gwasanaethau'r GIG (plant yn unig).

Mae tîm staff y practis yn cynnwys tri deintydd (gan gynnwys y prif ddeintydd/perchennog), dau hylenydd, un therapydd, tair nyrs, dau aelod o staff derbynfa, a rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG i blant.

3. Crynodeb

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a dderbyniom drwy ein holiaduron cleifion yn unfrydol gadarnhaol. Roedd gweithdrefnau wedi'u sefydlu er mwyn canfod ac adolygu adborth gan gleifion fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Ar y cyfan, gwnaethom ganfod tystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod cleifion yn cael eu darparu â gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau a oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon bod yr offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y sampl o gofnodion a welwyd gennym yn darparu tystiolaeth o ofal cleifion unigoledig. Ar y cyfan, gwelsom fod y cofnodion o safon dda.

Canfuwyd gennym fod arweinyddiaeth effeithiol yn cael ei darparu gan reolwr y practis. Roedd y staff y siaradom â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion, ac roeddent yn wybodus ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau penodol. Roedd y polisïau a gweithdrefnau yn drefnus ac wedi'u hadolygu'n ddiweddar, ond gwnaethom awgrymu y dylid diweddarau rhai pethau.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a dderbyniom drwy ein holiaduron cleifion yn unfrydol gadarnhaol. Roedd gweithdrefnau wedi'u sefydlu er mwyn canfod ac adolygu adborth gan gleifion fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 20 holiadur atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Bob amser yn gallu gwneud apwyntiadau ac yn derbyn gwasanaeth o ansawdd da bob tro.”

“Maen nhw wedi gwella fy 'ffobia' o fynd at y deintydd. Practis ardderchog. Wedi'i argymell i ffrindiau a theulu dros y blynyddoedd.”

“Mae'r holl staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn. Mae staff y dderbynfa yn groesawgar iawn hefyd ac yn barod i helpu bob tro.”

Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth sy'n dangos y darperid gofal i gleifion mewn modd urddasol a pharchus. Gwnaethom ganfod bod trefniadau er mwyn i staff gael trafodaethau â chleifion mewn ardal breifat, i ffwrdd o gleifion eraill os oes angen. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron yn unfrydol gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd amserol. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion. Dywedodd y cleifion hynny oedd wedi

cael profiad o oedi mai dim ond o bryd i'w gilydd oedd hyn neu nad oedd rhaid iddynt aros yn hir. Cadarnhaodd y staff y byddent yn hysbysu'r cleifion pe bai'r deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom arwydd yn y ffenestr gyda manylion y rhif ffôn cyswllt mewn argyfwng fel bod cleifion yn gallu cael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

Cadw'n iach

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod cleifion wedi'u grymuso a'u cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth, sy'n eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u gofal. Gwnaethom hefyd nodi bod taflenni hyrwyddo iechyd ar gael yn yr ystafell aros ac yn y dderbynfa.

Gofal unigol

Trwy drafodaethau â'r staff ar ddiwrnod yr arolygiad, daethom i'r casgliad bod y practis wedi cydnabod amrywiaeth ei boblogaeth ac wedi ystyried ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Oherwydd cyfyngiad yr adeilad a phrinder gofod, mae'r ddwy ystafell driniaeth wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid mynd i fyny grisiau serth er mwyn eu cyrraedd. Dywedwyd wrthym fod gan y practis gynlluniau i adnewyddu'r adeilad yn y dyfodol er mwyn cynyddu hygyrchedd i gleifion ag anawsterau symudedd drwy ddarparu naill ai ystafell driniaeth ar y llawr daear neu lifft grisiau.

Gwelsom fod taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael wrth ddesg y dderbynfa, ac roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y practis. Dywedwyd wrthym hefyd bod y practis yn darparu sbectol ddarllen sbâr mewn gwahanol gryfderau er mwyn cynorthwyo cleifion gyda llenwi ffurflenni a darllen gwybodaeth.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn gwahodd adborth gan gleifion. Cynhaliwyd arolwg cleifion manwl bob tair blynedd ar ran y practis, a gwelsom ganlyniadau'r arolwg o Ebrill 2015, a oedd yn dangos lefel uchel o foddhad gan y cleifion. Dangosodd ganlyniadau'r arolwg blaenorol fod boddhad y cleifion wedi cynyddu. Roedd y practis hefyd yn cynnal holiaduron i gleifion, a dywedwyd wrthym fod llyfr sylwadau ar gael. Roedd gan y practis dudalen

Facebook hefyd, lle gallai cleifion roi sylwadau, ac roedd hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i'r holl gleifion leisio pryderon (cwynion), p'un a oeddent yn gleifion preifat neu'n gleifion y GIG. Gwnaethom ganfod bod angen gwelliannau mân o ran yr amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion. Bydd y rhain yn sicrhau bod y polisi yn hollol unol â'r trefniadau cyfredol ar gyfer lleisio pryderon ynglŷn â thriniaeth y GIG (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella'). I gleifion sy'n derbyn triniaeth y GIG, dylai'r polisi hefyd gynnwys manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned lleol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008,¹ roedd angen i'r polisi gynnwys manylion cyswllt AGIC. Ar ôl yr arolygiad, gwelsom fod y polisi wedi'i ddiweddarau er mwyn cynnwys y diwygiadau hyn.

Gwelsom fod poster yn y dderbynfa sy'n cyfeirio at gwynion, ond nid oedd hwn yn hawdd i'w weld ac nid oedd yn cynnwys manylion llawn y drefn gwyno. Gwelsom hefyd nad oedd y rhestr brisiau preifat yn hawdd i'w gweld.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y drefn gwyno lawn a'r rhestr brisiau yn hawdd i'w gweld, fel nad oes rhaid i gleifion ofyn am y wybodaeth hon.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis wedi derbyn cwyn ysgrifenedig. Dangoswyd llyfr i ni ble cofnodwyd cwynion anffurfiol a chwynion ar lafar. Y thema oedd yn dod i'r amlwg yn y cwynion hyn oedd y grisiau yn y practis. Cadarnhaodd y staff eu bod yn ymwybodol o hyn a bod cynlluniau ganddynt i wella mynediad.

¹ Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Ar y cyfan, gwnaethom ganfod tystiolaeth i gefnogi'r casgliad bod cleifion yn cael eu darparu â gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau a oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roeddem yn fodlon bod yr offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn modd priodol a diogel.

Roedd y sampl o gofnodion a welwyd gennym yn darparu tystiolaeth o ofal cleifion unigoledig. Ar y cyfan, gwelsom fod y cofnodion o safon dda.

Gofal diogel

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom ganfod tystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Gwelsom y cynhaliwyd profion dyfeisiadau cludadwy i sicrhau defnydd diogel o ddyfeisiadau trydanol bach yn y practis. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd y practis i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan. Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol, ac roeddent wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Rheoli heintiau

Roeddem yn fodlon gyda'r trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd gwelsom dystiolaeth o fesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith sydd wedi'u seilio ar ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.² Roedd engreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ardal benodol i lanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Argaeledd a defnydd o gyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy a chyfarpar diogelu llygaid

² <http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444>

- Sinciau penodol i olchi dwylo
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer wedi'u cynnal a'u cadw, ac roedd yr offer a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio offer i'w gweld mewn cyflwr da.

Gwelsom fod offer yn cael eu storio mewn modd priodol a bod system ar waith i sicrhau nad oeddent yn cael eu storio'n hirach na'r cyfnod amser a argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau wedi cael eu cynnal yn unol â Memorandwm Iechyd Technegol Cymru 01-05. Roedd y practis hefyd wedi cofrestru ar gyfer y pecyn arolygu a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru.

Cyffuriau brys a chyfarpar dadebru

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai achos o argyfwng mewn perthynas â chlaf (llewygu). Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd.

Diogelu

Gwnaethom ganfod bod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd yno bolisiau cyfredol ym maes diogelu plant ac oedolion, ac roedd pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant priodol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo iddynt gael eu cefnogi yn eu swyddi, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon sydd ganddynt. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y practis yn ymgymryd â gwiriadau cyn cyflogaeth digonol o unrhyw aelodau posibl o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan ddau o'r deintyddion dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Yn dilyn yr arolygiad, hysbysodd y practis AGIC eu bod wedi mynd i'r afael â hyn a bod y tystysgrifau diweddaraf gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cadw ar ffeil.

Offer radiograffeg

Gwelsom ddogfennaeth oedd yn cadarnhau bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Yn ogystal â hyn, roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi derbyn hyfforddiant digonol a chyfredol sy'n bodloni'r safonau ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal y

gweithdrefnau hyn. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol³ a Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gofal effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn ymgymryd ag archwiliadau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau rheoli heintiau a phelydr-X. Nid oedd y staff clinigol yn derbyn adolygiadau ffurfiol gan gymheiriaid, er dywedwyd wrthym fod trafodaethau ad hoc yn cael eu cynnal ynglŷn ag unrhyw broblemau clinigol. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid o staff clinigol y practis fel modd o sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ffurfioli trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys cynnal adolygiadau gan gymheiriaid o'r staff clinigol.

Roedd y cofnodion cleifion a welsom wedi'u cadw yn unol â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau safonau clinigol. Edrychasom yn fanwl ar gyfanswm o naw o gofnodion cleifion ar gyfer pob deintydd, a gwnaethom ganfod bod y cofnodion o safon dda.

Roedd y rhan fwyaf o wybodaeth cleifion wedi'i chwblhau'n electronig neu wedi'i sganio. Gwnaethom ganfod bod ychydig o wybodaeth cleifion, mewn perthynas â phlant sy'n derbyn triniaeth y GIG, wedi'i chadw mewn ffolder mewn cwpwrdd yn swyddfa'r staff. Er nad oedd yn hawdd i bobl heb awdurdod gael mynediad at y wybodaeth hon, gwnaethom argymhell ei bod yn cael ei storio mewn cwpwrdd wedi'i gloi er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth cleifion ar bapur gael ei storio'n ddiogel, mewn cwpwrdd wedi'i gloi, er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth.

³ Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuwyd gennym fod arweinyddiaeth effeithiol yn cael ei darparu gan reolwr y practis. Roedd y staff y siaradom â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion, ac roeddent yn wybodus ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau penodol. Roedd y polisïau a gweithdrefnau yn drefnus ac wedi'u hadolygu'n ddiweddar, ond gwnaethom awgrymu y dylid diweddarau rhai pethau.

Cyfrifoldeb rheolwr y practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a ymddangosai'n hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Roedd tîm y practis wedi'i hen sefydlu, ac roedd trosiant y staff yn isel. Gwelsom hefyd fod y practis wedi ymgymryd â'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth (dull o sicrhau ansawdd practis ar gyfer timau deintyddol), sy'n arfer nodedig.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y staff yn gallu cael mynediad i hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl ac i'w datblygiad proffesiynol parhaus, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant priodol yng nghofnodion y staff.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff yn derbyn arfarniad tua unwaith bob blwyddyn, a gwelsom enghraifft o hyn. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael o fewn y practis. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y tystysgrifau hyn yn weladwy i'r cleifion. Yn dilyn yr arolygiad, cadarnhaodd y practis eu bod wedi mynd i'r afael â hyn, drwy symud y tystysgrifau i'r ystafell aros i'r cleifion gael eu gweld.

Gwelsom fod cofnodion am statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod tri aelod o staff heb ddatblygu imiwnedd llawn, ac nid oedd y cofnodion yn eglur ynglŷn ag a oedd angen pigiad atgyfnerthu. Gan fod pob un o'r aelodau hyn o staff wedi derbyn brechiadau dros bum mlynedd yn ôl, gwnaethom argymhell bod aelodau staff yn derbyn cyngor ar hyn gan y gwasanaeth iechyd galwedigaethol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i amddiffyn yn ddigonol yn erbyn firysau a gludir yn y gwaed trwy sicrhau bod staff yn derbyn cyngor ynglŷn â'u statws imiwnedd ac a oes angen pigiadau atgyfnerthu.

Gwnaethom wirio'r systemau sydd ar waith yn y practis er mwyn sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant cynefino addas, fel eu bod yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau'r practis. Edrychasom ar y polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y practis, a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi'u hadolygu'n rheolaidd ac wedi'u trefnu'n glir. Fodd bynnag, gwelsom fod angen diwygiadau ar y polisi cyfrinachedd i gynnwys manylion ar sut mae cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd angen datblygu dogfen cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau polisiâu a gweithdrefnau i gynnwys manylion ar sut mae cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

Mae'n rhaid i'r practis lunio dogfen cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Gwelsom fod cyfathrebu mewnol effeithiol rhwng yr aelodau staff. Dywedwyd wrthym y cynhaliwyd cyfarfodydd staff yn fisol, a gwelsom nodiadau cyfarfod i ddangos hyn. Gallem weld yn nodiadau'r cyfarfodydd bod pynciau priodol yn cael eu trafod, gan gynnwys cofnodi cwynion anffurfiol. Gwnaethom argymhell y practis i sicrhau hefyd bod unrhyw gamau gweithredu i aelodau unigol o staff yn cael eu cofnodi'n eglur.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Chapel Cottages yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1 Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008⁴ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁵ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Chapel Cottages

Dyddiad yr arolygiad: 7 Hydref 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
7	Dylai'r practis sicrhau bod y drefn gwyno lawn a'r rhestr brisiau yn hawdd i'w gweld, fel nad oes rhaid i gleifion ofyn am y wybodaeth hon.	Safonau Iechyd a Gofal 6.3; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.5	Symudwyd y rhestr brisiau i ddesg y dderbynfa yn syth ar ôl yr arolygiad. Mae'r drefn gwyno wedi'i diweddarau, ac mae bellach ar gael mewn taflen A4 ddwy ochr sydd wedi'i gosod gyda'r taflenni iechyd y geg a hyrwyddo iechyd eraill.	Paula Marshall Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau 19/10/15
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol					
10	Dylai'r practis ffurfioli trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan	Safonau Iechyd a	Ceisiwyd canllawiau ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid gan	Paula Marshall	Dechrau Ionawr 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gynnwys cynnal adolygiadau gan gymheiriaid o'r staff clinigol.	Gofal 3.3; Rheoliadau Deintyddiaeth h Breifat (Cymru), Adran 14(2)	Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru. Bydd y tîm clinigol, sy'n cynnwys tri deintydd, dau hylenydd a therapydd, yn cwrdd ym mis Ionawr i drafod pynciau i'w harchwilio.	Rheolwr y Practis	
10	Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth cleifion ar bapur gael ei storio'n ddiogel, mewn cwpwrdd wedi'i gloi, er mwyn sicrhau cyfrinachedd a diogelwch y wybodaeth.	Safonau Iechyd a Gofal 3.5	Symudwyd ffurflenni derbyn y GIG i gabinet ffeilio wedi'i gloi yn syth ar ôl yr arolygiad. Mae'r ffurflenni hyn yn cael eu sganio bellach i nodiadau'r cleifion.	Paula Marshall Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau 01/10/15
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
12	Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i amddiffyn yn ddigonol yn erbyn firsau a gludir yn y gwaed trwy sicrhau bod staff yn derbyn cyngor ynglŷn â'u statws imiwnedd ac a oes angen pigladau atgyfnerthu.	Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2	Mae pob aelod o staff wedi derbyn pigiad atgyfnerthu ar gyfer hepatitis B. Mae'r tri aelod o staff sydd ag ymateb isel i'r imiwneiddio wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaeth iechyd galwedigaethol i dderbyn cyngor. Mae asesiadau risg wedi cael eu cwblhau i'r staff hyn.	Paula Marshall Rheolwr y Practis	Rhagfyr 2015
12	Dylai'r practis ddiweddarau polisiau a gweithdrefnau i gynnwys manylion ar sut mae cynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.	Safonau Iechyd a Gofal 4.1; Deddf	Mae'r polisi cyfrinachedd a'r ddogfen cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi'u diweddarau ac ar gael wrth gais yn	Paula Marshall Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau 19/10/15

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Mae'n rhaid i'r practis lunio dogfen cydymffurfio â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.	Rhyddid Gwybodaeth 2000	y dderbynfa.		

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): Paula Marshall

Teitl: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 09/11/2015